Clerc/Clerk: Anwen Jones
Cyfeiriad/Address: 10 Gorffwysfa, Dwyran, Ynys Mon, LL61 6YJ
Ffon/Tel: 07375781090
E-bost/E-mail: clerk@valley-community-council.wales
Gwefan: www.cyngor-cymuned-fali.cymru
Website: www.valley-community-council.wales

Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Y Fali

Cynhaliwyd am 7.00yh ar nos Fercher 21/10/2026

Cafodd y cyfarfod ei gynnal mewn fformat hybrid yn Ysgol Gymuned y Fali, gan alluogi'r mynychwyr i gymryd rhan naill ai wyneb yn wyneb neu o bell trwy Microsoft Teams.

Presennol
Cynghorwyr:
N Tuck (Cadeirydd) G Browne MBE (Is-Gadeirydd)
C Carter E Jones
W Rogerson MBE M Swaine Williams
C Z Tattersall C Thornhill
J P Taylor (hefyd yn aelod lleol ward Bro'r Llynnoedd)

Hefyd yn bresennol
Cynghorydd Sir Gwilym Jones
H Hughes, Cyfieithydd
A Jones, Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol

Minutes of Valley Community Council

Held on 7.00pm, Wednesday 21/10/2026

The meeting was held in a hybrid format at Ysgol Gymuned y Fali, allowing attendees to participate either in person or remotely via Microsoft Teams.

Present
Councillors:
N Tuck (Chair) G Browne MBE (Vice-Chair)
C Carter E Jones
W Rogerson MBE M Swaine Williams
C Z Tattersall C Thornhill
J P Taylor (also local member for Bro'r Llynnoedd ward)

Also present
County Councillor Gwilym Jones
H Hughes, Translator
A Jones, Clerk and Responsible Financial Officer

129/2627 **Croeso a Sylwadau Agoriadol**
Rhoddodd pob aelod ganiatâd i recordio'r cyfarfod er mwyn cynorthwyo gyda pharatoi'r cofnodion.

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.

Hysbysodd yr aelodau fod y Cynghorydd A. Williams wedi ymddiswyddo o'i swydd fel aelod o'r Cyngor. Diolchodd y Cadeirydd iddi am ei gwasanaeth a'i chyfraniad ar ran y gymuned, a dymunodd bob lwc iddi yn y dyfodol. Nodwyd y byddai'r broses o hysbysebu'r sedd wag ar Ward y Pentref yn cychwyn yn unol â'r gofynion perthnasol.

Diolchodd y Cadeirydd hefyd i'r Cynghorydd M. Swaine Williams am drefnu'r gwaith o osod y fainc ar waelod Ffordd Gorad. Cydnabuwyd hefyd gyfraniad

Welcome and Opening Remarks
Permission was granted by all members to record the meeting in order to assist with the preparation of the minutes.

The Chair welcomed all to the meeting.

Members were advised that Councillor A. Williams had resigned from her position on the Council. The Chair thanked her for her service and contribution to the community and wished her all the best for the future. It was noted that the process of advertising the vacancy in the Village Ward would commence in accordance with the relevant requirements.

The Chair also thanked Councillor M. Swaine Williams for arranging the installation of the bench

DRAFT

gwerthfawr Grŵp Clwb y Cob ynghyd â'r nifer o wirfoddolwyr lleol sy'n rhoi o'u hamser eu hunain i gefnogi a gwella'r gymuned.

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau o bwysigrwydd dilyn Rheolau Sefydlog y Cyngor wrth wneud penderfyniadau ac argymhellion, gan sicrhau bod cynigion yn cael eu cynnig, eu heilio a'u pleidleisio'n briodol cyn symud ymlaen. Pwysleisiodd fod hyn yn berthnasol i gyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau fel ei gilydd, a gofynnodd i Gadeiryddion Pwyllgorau sicrhau bod y gweithdrefnau hyn yn cael eu dilyn yn gyson. Atgoffwyd yr aelodau mai cyfrifoldeb ar y cyd yw sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn gywir ac yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor.

Diolchodd y Cadeirydd hefyd i'r Cynghorwyr G Browne MBE, E Jones a C Z Tattersall am eu gwaith yn cynorthwyo Cadwch Gymru'n Daclus i osod y dywarchen blodau gwyllt ym Mharc Mwd yn ddiweddar.

at the bottom of Gorad Road. Recognition was also given to the valuable contribution of the Clwb y Cob Group and the many local volunteers who give their own time to support and improve the community.

The Chair reminded members of the importance of following the Council's Standing Orders when making decisions and recommendations, ensuring that motions are properly proposed, seconded and voted upon before proceeding. He emphasised that this applies equally to meetings of the Council and its Committees and asked Committee Chairs to ensure that these procedures are followed consistently. Members were reminded that it is a shared responsibility to ensure that meetings are conducted correctly and in accordance with the Council's Standing Orders.

The Chair also thanked Councillors G Browne MBE, E Jones and C Z Tattersall for their work in assisting Keep Wales Tidy with the installation of the wildflower turf at Parc Mwd recently.

130/2627 **Derbyn Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng A.Walker, Cyng H.Williams a'r Cyng S.Williams
Cyn/Eil: NT/WR

To accept apologies
To accept apologies by Cllr A.Walker, Cllr H.Williams and Cllr S.Williams.
Prop/Sec: NT/WR

131/2627 **Derbyn Datgan Buddiant Personol a/neu Rhag farnol**
Datganodd y Cyng JP Taylor fuddiant personol ond di-ragfarn ar yr holl faterion cynllunio fel aelod o Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir.

To receive Declaration of Personal and/or Prejudicial Interest
Cllr JP Taylor declared a personal but non prejudicial interest on all planning matters as a member of the County Council's Planning Committee.

132/2627 **Caniatáu i'r cyhoedd siarad ar unrhyw eitem ar yr agenda neu ofyn cwestiynau (3 munud)**
Dim aelod o'r cyhoedd yn bresennol

To allow the public to speak on any items on the agenda or ask questions (3 minutes)
No members of the public were present.

133/2627 **Diweddariad Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO)**
Nodwyd nad oedd unrhyw ddiweddariad gan y PCSO ar gyfer yr eitem hon y mis hwn.

PCSO Update

It was noted that there was no update from the PCSO on this item this month.

134/2627 **Cyfoeth Naturiol Cymru – Cyflwyniad i'r Goedwig Genedlaethol i Gymru**
Nid oedd modd cynnal cyflwyniad Jenny Crouch, Cyfoeth Naturiol Cymru, ar y Goedwig Genedlaethol i Gymru yn y cyfarfod hwn.

Natural Resources Wales – National Forest for Wales Presentation
It was not possible for Jenny Crouch, Natural Resources Wales, to deliver the National Forest for Wales presentation at this meeting.

DRAFT

135/2627 **Cadarnhau cofnodion y Cyfarfod llawn a gynhaliwyd ar 16/09/2026**

Penderfynwyd: i dderbyn y cofnodion fel cofnod gwir a chywir.
Cyn/Eil: NT/EJ
Cytunwyd yn unfrydol

To confirm minutes of the Full Council meeting held on 16/09/2026

Resolved: to accept the minutes as a true and accurate record.
Prop/Sec: NT/EJ
Agreed unanimously

136/2627 **Materion yn codi o'r cofnodion**

Ymarfer Monitro Cyflymder Ffordd yr Orsaf (rhif cofnod 23/2627.6)
Adroddodd y Clerc fod y data o'r ymarfer monitro cyflymder bellach wedi dod i law ac y byddai'n ei rannu gyda'r aelodau.

Adroddiad Blynyddol (rhif cofnod 107/2627)
Adroddodd y Clerc fod dau ddyfynbris wedi dod i law ar gyfer argraffu'r Adroddiad Blynyddol. Nodwyd y byddai'r Clerc yn cadarnhau sut y byddai'r copi printiedig terfynol yn cael ei gyflwyno cyn bwrw ymlaen â'r trefniadau argraffu. Nodwyd hefyd fod yr Adroddiad Blynyddol wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Matters arising from minutes

Station Road Speed Monitoring Exercise (minute 23/2627.6)
The Clerk reported that the data from the speed monitoring exercise had now been received and would be circulated to members.

Annual Report (minute 107/2627)
The Clerk reported that two quotations had been received for the printing of the Annual Report. It was noted that the Clerk would confirm how the final printed version would be presented before proceeding with the printing arrangements. It was also noted that the Annual Report had been published on the Council's website.

137/2627 **Cadarnhau cofnodion cyfarfod Pwyllgor Parciau a gynhaliwyd ar 07/10/2026 ac i ystyried unrhyw argymhellion a gynhwysir ynddynt**

Nodwyd y byddai'r Cyngor yn trafod cynnwys y cofnodion a'r argymhellion a gynhwyswyd ynddynt ymhellach o dan Eitem 140/2627. Cytunodd y Cyngor i gadarnhau'r cofnodion yn unig o dan yr eitem hon.

Penderfynwyd: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Parciau a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2026.
Cyn/Eil: NT/EJ
Cytunwyd yn unfrydol.

To confirm the minutes of the Parks Committee meeting held on 07/10/2026 and to consider any recommendations contained therein

It was noted that the contents of the minutes and the recommendations contained therein would be discussed further by the Council under Item 140/2627. The Council agreed to confirm the minutes only under this item.
Resolved: To approve the minutes of the Parks Committee meeting held on 7 October 2026.
Prop/Sec: NT/EJ
Agreed unanimously.

138/2627 **National Grid – Diweddariad ar waith yr Is-orsaf ym Mhenrhos a Chronfa Gymunedol Penrhos**
Ers y cyfarfod diwethaf, roedd copi o'r ohebiaeth a dderbyniwyd gan National Grid wedi'i rannu gyda'r aelodau.
Rhoddodd aelodau sy'n byw yn agos i'r gwaith ac sy'n cael eu heffeithio ganddo ddiweddariad byr i'r Cyngor yn dilyn eu cyfarfod â chynrychiolwyr National Grid, gan amlinellu'r prif faterion a drafodwyd mewn perthynas â'r effaith ar drigolion lleol. Nodwyd y wybodaeth.

National Grid – Penrhos Substation Works and Penrhos Community Fund Update
Since the previous meeting, a copy of the correspondence received from National Grid had been shared with members.
Members who live close to and are affected by the works provided a brief update to the Council following their meeting with representatives of National Grid, outlining the main issues discussed in relation to the impact on local residents. The information was noted.

DRAFT

139/2627 **Balchder yn Eich Cymuned – Dyraniad Cyfalaf i Gynghorau Tref a Chymuned**

Rhoddodd y Clerc ddiweddariad ar gynnydd y prosiect ac adroddwyd bod pob elfen o'r prosiect wedi'i harchebu, gyda nifer o'r eitemau eisoes wedi'u cwblhau. Nodwyd bod tanwariant amcangyfrifedig o £1,792.48 yn weddill o'r grant.

Rhoddwyd diweddariad gweithredol ar y sefyllfa ym Mharc Mwd, lle nodwyd bod rhai defnyddwyr yn gyrru'n rhannol ar y lleiniau glaswellt wrth basio'r rampiau arafu. Trafodwyd cynnig i osod arwyddion ychwanegol, a fyddai'n gwasanaethu dau bwrpas: tynnu sylw at bresenoldeb y rampiau a chynorthwyo i atal cerbydau rhag gyrru ar y lleiniau glaswellt. Nodwyd mai'r gost amcangyfrifedig ar gyfer tri phostyn ac arwydd, ynghyd ag arwydd ychwanegol ar y giât, oedd £465.00.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a thrafod y cynnig.

Penderfynwyd: Archebu'r arwyddion a'r pyst o dan grant Balchder yn Eich Cymuned, gan gynnwys cymysgedd o arwyddion rhybuddio am rampiau ac arwyddion codi baw cŵn o dan y tanwariant grant.
Cyn/Eil: WR/GB
Cytunwyd yn unfrydol.

Cynhaliwyd trafodaeth bellach ynghylch y tanwariant oedd yn weddill, sef oddeutu £1,327.48. Adolygwyd y rhestr wreiddiol o brosiectau a chytunwyd i ymchwilio i gostau adfer dau Fainc y Mileniwm a'r Fainc Dreftadaeth. Nododd y Clerc y byddai hefyd yn cadarnhau gyda'r Cyngor Sir a fyddai'r gwariant yn gymwys o dan grant Balchder yn Eich Cymuned.

Penderfynwyd: Bod y Clerc yn cael prisiau ar gyfer adfer dau Fainc y Mileniwm.
Cyn/Eil: GB/NT
Cytunwyd yn unfrydol.

Penderfynwyd: Bod y Clerc yn cysylltu â dylunydd gwreiddiol y Fainc Dreftadaeth i asesu ei chyflwr ac, os oes angen, i ddarparu dyfynbris ar gyfer unrhyw waith adfer angenrheidiol.
Cyn/Eil: CT/CC
Cytunwyd yn unfrydol.

Pride in Your Community – Capital Allocation for Town and Community Councils

The Clerk provided an update on the progress of the project and reported that all elements of the project had been ordered, with a number of items already completed. It was noted that an estimated underspend of £1,792.48 remained from the grant.

An operational update was provided regarding the situation at Parc Mwd, where it had been noted that some users were partially driving onto the grass verges when passing the speed ramps. A proposal to install additional signage was discussed, which would serve two purposes: highlighting the presence of the speed ramps and discouraging vehicles from driving onto the grass verges. It was noted that the estimated cost for three posts and signs, together with an additional sign for the gate, was £465.00.

Members were given the opportunity to ask questions and discuss the proposal.

Resolved: To order the signs and posts under the Pride in Your Community Grant, comprising a mixture of speed ramp warning signs and dog fouling signs from the grant underspend.
Prop/Sec: WR/GB
Agreed unanimously.

Further discussion took place regarding the remaining underspend, estimated at £1,327.48. The original list of projects was reviewed, and it was agreed to investigate the costs of restoring two Millennium Benches and the Heritage Bench. The Clerk advised that she would also confirm with the County Council whether the expenditure would be eligible under the Pride in Your Community Grant.

Resolved: That the Clerk obtain quotations for the restoration of two Millennium Benches.
Prop/Sec: GB/NT
Agreed unanimously.

Resolved: That the Clerk contact the original designer of the Heritage Bench to assess its condition and, if required, provide a quotation for any necessary restoration work.
Prop/Sec: CT/CC
Agreed unanimously.

DRAFT

	Materion Lleol	Local Matters
140/2627	**Parc Mwd – adroddiad, ystyriaeth ac unrhyw argymhellion** Derbyniodd yr aelodau drosolwg gan Gadeirydd y Pwyllgor Parciau o gyfarfod y Pwyllgor Parciau a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2026. Cyfeiriwyd at y prif faterion a drafodwyd, gan gynnwys prosiectau cyfredol, cynnal a chadw, iechyd a diogelwch, bioamrywiaeth a'r contract torri gwair. Adroddwyd bod y ddôl blodau gwyllt wedi'i phlannu ym Mharc Mwd a diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Parciau i'r Cyng CZ Tattersall a'r Cyng. G Browne MBE am eu cymorth a'u hamser yn gwirfoddoli gyda'r gwaith. Nodwyd bod y Pwyllgor Parciau wedi trafod y posibilrwydd o glustnodi unrhyw danwariant ym Mharc Mwd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn y dyfodol. Nodwyd y byddai unrhyw danwariant o'r fath yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Cyllid i'w ystyried. Nodwyd hefyd y cynhelir cyfarfod i adolygu'r contract torri gwair a chynnal tiroedd cyn y broses dendro nesaf, a bod croeso i unrhyw aelod ymuno. Nodwyd bod eitemau sy'n perthyn i Grŵp Cymuned y Fali yn parhau i gael eu storio yn Adeilad y Pafiliwn. Trafododd yr aelodau argymhelliad y Pwyllgor Parciau ynghylch y mater. **Penderfynwyd:** Ysgrifennu at Grŵp Cymuned y Fali yn gofyn am ymateb ysgrifenedig erbyn 1 Tachwedd 2026 yn cadarnhau a ydynt yn dymuno cadw'r eitemau neu i'r Cyngor drefnu eu gwaredu ar eu rhan. Gofynnir hefyd i'r eitemau gael eu symud erbyn 18 Tachwedd 2026. Cyn/Eil: JPT/GB Cytunwyd yn unfrydol. Trafodwyd argymhelliad y Pwyllgor Parciau mewn perthynas â hyfforddiant Ymwybyddiaeth Legionella. **Penderfynwyd**: Bod y Clerc, y Cyng E.Jones a'r Cyng C Z Tattersall yn ymgymryd â'r hyfforddiant Ymwybyddiaeth Legionella ar gost o £17.50 y pen ynghyd â TAW.	**Parc Mwd – report, consideration and any recommendations** Members received an overview from the Chair of the Parks Committee of the Parks Committee meeting held on 7 October 2026. Reference was made to the main matters discussed, including current projects, maintenance, health and safety, biodiversity and the grass cutting contract. It was reported that the wildflower meadow had been planted at Parc Mwd and the Chair of the Parks Committee thanked Councillors C Z Tattersall and G Browne MBE for their assistance and time spent volunteering on the project. It was noted that the Parks Committee had discussed the possibility of earmarking any unspent Parc Mwd funds at the end of the financial year for future repair and maintenance works. Any such underspend would be referred to the Finance Committee for consideration. It was also noted that a meeting would be held to review the grass cutting and grounds maintenance contract prior to the next tender process, and that all members were welcome to attend. It was noted that items belonging to the Valley Community Group remained stored within the Pavilion Building. Members considered the recommendation of the Parks Committee regarding the matter. **Resolved:** To write to the Valley Community Group requesting a written response by 1 November 2026 confirming whether they wished to retain the items or for the Council to arrange disposal on their behalf. The Group would also be requested to remove the items by 18 November 2026. Prop/Sec: JPT/GB Agreed unanimously. The recommendation of the Parks Committee regarding Legionella Awareness Training was considered.

DRAFT

Cyn/Eil: JPT/CC
Cytunwyd yn unfrydol.

Parhaodd y drafodaeth ar drefniadau Iechyd a Diogelwch. Nodwyd fod y Cyng E. Jones, yn ogystal â chynnal trefniadau rheoli legionella, yn cynnal gwiriadau wythnosol ar y system ddiogelwch tân a'r offer chwarae.

Cadarnhaodd y Clerc hefyd, er sicrwydd i'r aelodau, fod systemau tân a diogelwch y Pafiliwn yn cael eu gwasanaethu a'u harchwilio'n rheolaidd, gan gynnwys Asesiad Risg Tân blynyddol, gan gontractwyr cymwys.

Nodwyd fod trefniadau a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch y Cyngor yn cael eu hadolygu a'u cryfhau. Atgoffwyd yr aelodau mai'r Cyngor sy'n gyfrifol yn y pen draw am Iechyd a Diogelwch, gyda'r Clerc yn cydlynu trefniadau cydymffurfio a chadw cofnodion. Diolchodd y Clerc i'r Cyng E. Jones am ei gefnogaeth gyda'r gwiriadau wythnosol.

Resolved: That the Clerk, Cllr E.Jones and Cllr C Z Tattersall undertake Legionella Awareness Training at a cost of £17.50 per person plus VAT.
Prop/Sec: JPT/CC
Agreed unanimously.

Further discussion took place regarding Health and Safety arrangements. It was noted that Cllr E Jones, in addition to undertaking legionella control measures, carries out weekly checks of the fire safety system and play equipment.

The Clerk also confirmed, for members' assurance, that the Pavilion's fire and security systems are serviced and inspected regularly, including an annual Fire Risk Assessment undertaken by competent contractors.

It was noted that the Council's Health and Safety arrangements and procedures are being reviewed and strengthened. Members were reminded that the Council retains overall responsibility for Health and Safety matters, with the Clerk coordinating compliance arrangements and maintaining records. The Clerk thanked Cllr E Jones for his support in undertaking the weekly checks.

141/2627 **Adeilad y Pafiliwn – adroddiad, ystyriaeth ac unrhyw argymhellion**

Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Parciau ddiweddariad pellach ynghylch y prosiect Adeilad y Pafiliwn yn dilyn trafodaethau a gynhaliwyd ers cyfarfod diwethaf y Cyngor Llawn.

Nodwyd fod Cadeirydd y Pwyllgor Parciau wedi trafod y cynigion gyda'r Clwb Pêl-droed, a oedd wedi cysylltu â Chymdeithas Bêl-droed Cymru ynghylch cyfleoedd ariannu posibl. Hysbyswyd yr aelodau nad oedd grantiau perthnasol ar gael tan y flwyddyn nesaf. Nodwyd hefyd na fyddai'n bosibl cynnal arolwg ecolegol tan fis Mai y flwyddyn nesaf.

Trafodwyd yr angen i sefydlu Grŵp Gweithio i ddatblygu'r prosiect ymhellach, gyda chynrychiolaeth bosibl yn cynnwys aelodau o'r Cyngor, grwpiau cymunedol, y Clwb Pêl-droed a'r pensaer.

Pwysleisiodd yr aelodau fod unrhyw ddatblygiad yn gorfod bod er budd y gymuned gyfan, gyda'r Grŵp

Pavilion Building – report, consideration and any recommendations

The Chair of the Parks Committee provided a further update on the Pavilion Building project following discussions that had taken place since the previous Full Council meeting.

It was noted that the Chair of the Parks Committee had discussed the proposals with the Football Club, who had in turn contacted the Football Association of Wales regarding potential funding opportunities. Members were advised that relevant grant funding would not be available until next year. It was also noted that an ecological survey could not be undertaken until May next year.

The need to establish a Working Group to develop the project further was discussed, with possible representation from the Council, community groups, the Football Club and the architect.

Members emphasised that any future development must be for the benefit of the wider

Gweithio yn adolygu a datblygu cynigion posibl ar gyfer y prosiect.

Trafodwyd hefyd drefniadau rheoli'r prosiect. Nodwyd na fyddai'n briodol i'r Clerc weithredu fel Rheolwr Prosiect a bod angen ystyried trefniadau priodol ar gyfer y rôl hon wrth i'r prosiect ddatblygu. Rhannodd y Clerc gyngor a gafwyd gan yr SLCC ynghylch rheoli prosiectau a nodwyd y byddai'r wybodaeth yn cael ei dosbarthu i'r aelodau.

community, with the Working Group reviewing and developing potential proposals for the project.

Project management arrangements were also discussed. It was noted that it would not be appropriate for the Clerk to act as Project Manager and that suitable arrangements for this role would need to be considered as the project progressed. The Clerk shared advice received from the SLCC regarding project management, and it was noted that this information would be circulated to members.

142/2627 **Ynys Wen – adroddiad, ystyriaeth ac unrhyw argymhellion**
Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad gan Gadeirydd Pwyllgor Ynys Wen.

Nodwyd fod y garreg goffa wedi'i chwblhau a bod lleoliad addas ar ei chyfer wedi'i nodi gan aelodau o Bwyllgor Ynys Wen a'r Clerc.

Hysbyswyd yr aelodau y byddai Cadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorydd G Browne MBE yn cynnal Asesiad Risg blynyddol y fynwent.

Nodwyd hefyd fod trafodaethau ac ymgynghori pellach wedi'u cynnal gydag ymgymerwyr angladdau mewn perthynas â threfniadau agor beddau, gyda nifer o gyfarfodydd wedi'u cynnal ers y cyfarfod diwethaf. Adroddwyd bod y trafodaethau wedi bod yn gadarnhaol a bod pawb yn fodlon â'r trefniadau sy'n cael eu datblygu.

Gwasanaeth Sul y Cofio
Rhoddwyd diweddariad ar drefniadau Sul y Cofio. Nodwyd y cynhelir gwasanaeth yn Eglwys Sant Mihangel, Y Fali am 11:15yb, ac yna gwasanaeth ym Mynwent Ynys Wen am 12:30yp ddydd Sul 8 Tachwedd 2026.

Ynys Wen – report, consideration and any recommendations
Members received an update from the Chair of the Ynys Wen Committee.

It was noted that the memorial stone has been completed and that a suitable location for its installation has been identified by members of the Ynys Wen Committee and the Clerk.
Members were advised that the Chair of the Committee and Councillor G Browne MBE would undertake the annual cemetery Risk Assessment.

It was also noted that further consultation and discussions had taken place with funeral directors regarding grave opening arrangements, with several meetings having been held since the previous meeting. Members were advised that the discussions had been positive and that all parties were content with the arrangements being developed.

Remembrance Service
An update was provided on Remembrance Sunday arrangements. It was noted that a Service would be held at St Michael's Church, Valley, at 11:15am, followed by a Service at Ynys Wen Cemetery at 12:30pm on Sunday 8 November 2026.

	Materion Ariannol	**Financial Matters**
143/2627	**Balansau Cyfrifon Banc ar 30 Medi 2026** - ystyried a chymeradwyo balansau'r cyfrifon banc ar 30 Medi 2026.	**Bank Account Balances as at 30 September 2026** - to consider and approve the bank account balances as at 30 September 2026.

DRAFT

Cyfrif Elusennol – Busnes / Business Charitable Account	£18,254.50
Cyfrif Wrth Gefn – Busnes / Business Reserves	£35,354.98
Cyfrif Elusennol – Ynys Wen / Ynys Wen Charitable Account	£1,487.00
Cyfrif Wrth Gefn – Ynys Wen / Ynys Wen Reserves	£15,236.46
Cyfanswm / Total	**£70,332.94**

Penderfynwyd: derbyn y balansau fel rhai cywir yn unol â Rheoliadau Ariannol Cyngor Cymuned y Fali
Cyn/Eil: WR/MSW
Cytunwyd yn unfrydol

Resolved: to accept the balances as correct in accordance with the Valley Community Council Financial Regulations.
Prop/Sec: WR/MSw
Agreed unanimously

144/2627 **Sefyllfa'r Cronfeydd Wrth Gefn ac Incwm a Dderbyniwyd** – nodwyd sefyllfa gyfredol o ran cronfeydd wrth gefn a'r incwm a dderbyniwyd hyd at ddyddiad y cyfarfod.

Reserves Position and Income Received – it was noted the current position of reserves and income received up to the date of the meeting.

i. **Reserfau ac Arian wedi'i Glustnodi / Reserves and Earmarked Funds**

General Reserves	£29,925.73
Ynys Wen General Reserves	£15,236.46
Bike Rack	£600.00
Parc Mwd Speed Ramps	£2,500.00
Legal Fees	£900.00
Clock	£2,029.25
Car Park Rent 2025/26	£679.21
Cyfanswm / Total	**£51,870.65**

ii. **Incwm a dderbyniwyd ers y cyfarfod diwethaf / Income received since last meeting**

Incwm y Fynwent / Cemetery Receipts	£1,050.00
Cyfanswm / Total	**£1,050.00**

Derbyniodd yr aelodau a nodwyd y wybodaeth mewn perthynas â sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn a'r incwm a dderbyniwyd hyd at ddyddiad y cyfarfod.

Members received and noted the information relating to the reserves position and income received up to the date of the meeting.

145/2627 **Rhestr Taliadau Rheolaidd** - nodi'r taliadau rheolaidd a wnaed yn unol â'r rhestr taliadau rheolaidd a gymeradwywyd.

Schedule of Regular Payments - to note the regular payments made in accordance with the approved Schedule of Regular Payments.

DD	British Gas – Trydan i'r Cloc / Clock Electricity	£18.27
BT	EE - Credyd i'r Ffon Symudol (Medi) / Mobile Phone Top Up (September)	£5.00
BT	AGS Groundcare – Contract Gwasanaethau Torri Glaswellt a Chynnal a Chadw Tiroedd / Grass Cutting and Grounds Maintenance Contract	£3,229.20
DD	Cloudy Group – Cefnogaeth TG (Medi) / IT Support (September)	£66.07
DD	Scottish Power – Parc Mwd Trydan / Electricity	£56.82
DD	CSYM / IOACC – Treth Cyngor Maes Parcio / Car Park Council Tax	£42.00

DRAFT

BT	EE - Credyd ychwanegol i'r Ffon Symudol (Medi) / Additional Mobile Phone Top Up (September)	£5.00
DD	Dwr Cymru – Parc Mwd	£30.19
DD	Dwr Cymru – Ynys Wen	£44.36
DD	PWLB Loan – Ynys Wen	£648.16
DD	PWLB Loan – Parc Mwd	£1,272.80

Derbyniodd a nododd yr aelodau'r taliadau rheolaidd a wnaed yn unol â'r Rhestr Gymeradwy o Daliadau Rheolaidd.

Members received and noted the regular payments made in accordance with the approved Schedule of Regular Payments.

146/2627 **Taliadau i'w Hawdurdodi** - cymeradwyo taliadau a gyflwynwyd i'w hawdurdodi, nodi gwariant o dan awdurdod dirprwyedig ers y cyfarfod diwethaf, a chadarnhau taliadau cerdyn debyd a wnaed ers y cyfarfod diwethaf.

Payments for Authorisation - to authorise payments presented for approval, note expenditure incurred under delegated authority since the last meeting, and ratify debit card payments made since the last meeting.

- **Gwerthuso Rôl Clerc & Swyddog Ariannol Cyfrifol**

Trafodwyd cais gan y Cadeirydd i gynnal gwerthusiad o'r swydd Clerc & Swyddog Ariannol Cyfrifol yn sgil y cynnydd mewn dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd. Nodwyd bod y Clerc wedi rhoi gwybod ei bod yn gweithio'n rheolaidd y tu hwnt i'w horiau cytundebol.

Hysbyswyd yr aelodau fod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wedi derbyn cyngor gan Un Llais Cymru, a bod swyddog profiadol o'r sefydliad yn gallu cynnal gwerthusiad annibynnol o'r swydd. Trafodwyd cost y gwaith, sef £550.

Penderfynwyd: Awdurdodi gwariant o £550 ar gyfer cynnal gwerthusiad o swydd y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Bydd canlyniad y gwerthusiad yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid a Phersonél cyn cyflwyno unrhyw argymhellion i'r Cyngor Llawn.
Cyn/Eil: EJ/CT
Cytunwyd yn unfrydol.

• Role Evaluation – Clerk & Responsible Financial Officer

Members considered a request from the Chair to undertake an evaluation of the Clerk & Responsible Financial Officer post in light of the increase in duties and responsibilities associated with the role. It was noted that the Clerk had advised that she was regularly working beyond her contracted hours.

Members were informed that the Chair and Vice-Chair had received advice from One Voice Wales, and that an experienced officer from the organisation could undertake an independent evaluation of the post. The cost of the evaluation, £550, was discussed.

Resolved: To authorise expenditure of £550 for an evaluation of the Clerk and Responsible Financial Officer post. The outcome of the evaluation will be considered by the Finance and Personnel Committee before any recommendations are referred to Full Council.
Prop/Sec: EJ/CT
Agreed unanimously.

DD	SKY Business Broadband	£38.34
BT	North Wales Watch Repairs (Clock Restoration)	£6,023.00
DC	Royal British Legion – Poppy Wreaths and Donation	£129.00
DD	ICO (Information Commissioner's Office) – Registration Fee (pro rata amount)	£47.00
DC	Screwfix – 2 x padlocks for the Pavilion	£45.98

DRAFT

BT	Cyngor Sir Ynys Mon – Gwaith gosod rampiau Parc Mwd	£5,130.79
DC	Gwyndaf Williams a'i Fab – Torri 3 goriad Pafiliwn	£15.00
BT	Môn Fire Management – Annual Fire Risk Assessment	£150.00
BT	Un Llais Cymru / One Voice Wales – Clerk and RFO Role Evaluation	£550.00

Penderfynwyd: i dderbyn y taliadau fel rhai cywir ac fe'u hawdurdodwyd yn unol â Rheoliadau Ariannol Cyngor Cymuned y Fali.
Cyn/Eil: WR/JPT
Cytunwyd yn unfrydol

Resolved: to accept payments as correct and to authorise them in accordance with the Valley Community Council Financial Regulations.
Prop/Sec: WR/JPT
Agreed unanimously

	Ymgynghori ar Geisiadau a Phenderfyniadau Cynllunio	**To Consult on Planning Applications and Decisions**
147/2627	**Ymgynghoriad Ceisiadau Cynllunio:** TPO/2026/12 – Cais i wneud gwaith ar goed sydd wedi eu gwarchod gan Orchymyn Diogelu Coed yn Bull Hotel, Ffordd Caergybi, Y Fali **Penderfynwyd:** Hysbysu'r Awdurdod Cynllunio nad oes gan y Cyngor unrhyw sylwadau ar y cais. Cyn/Eil: EJ/WR Cytunwyd yn unfrydol gan yr aelodau a bleidleisiodd. Nodwyd na chymerodd y Cynghorydd J.P. Taylor unrhyw ran yn y drafodaeth na'r bleidlais oherwydd ei rôl fel aelod o Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir.	**Planning Applications for Consultation:** TPO/2026/12 - Application for works to trees protected by a Tree Preservation Order at Bull Hotel, Holyhead Road, Valley **Resolved:** To notify the Planning Authority that the Council has no comments on the application. Prop/Sec: EJ/WR Carried unanimously by those members voting. It was noted that J.P. Taylor took no part in the discussion or vote due to his role as a member of the County Council Planning Committee.
148/2627	**Penderfyniadau Cynllunio** Nodwyd nad oedd unrhyw benderfyniadau cynllunio wedi'u derbyn gan y Cyngor ers y cyfarfod diwethaf.	**Planning Decisions** It was noted that no planning decisions had been received by the Council since the previous meeting.
149/2627	**Gohebiaeth (wedi cylchredeg):** **1.** Tim Cysylltiadau Cymunedol Is-Orsaf Penrhos - Is-orsaf Penrhos - Diweddariad gwaith y bellmouth **2.** Cyngor Sir Ynys Môn - A5 Cob Y Fali (cau'r ffordd rhwng 12 Ionawr 2027 a 19 Ionawr 2027) **3.** Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru - Cyhoeddiad o'r Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2026-27. **4.** Gorchymyn Cyngor Sir Ynys Môn (amryw leoliadau) (safleoedd parcio i bersonau anabl) 2026 **5.** Holiadur Asesiad Gwydnwch Cymunedol (Cymru).	**Correspondence (Circulated):** 1. Penrhos Substation Community Relations Team - Penrhos Substation - Bellmouth works update 2. Isle of Anglesey County Council - Temporary Road Closure: A5 Valley Cob (12-19 January 2027) 3. Democracy and Boundary Commission Cymru - Publication of the Draft Annual Remuneration Report 2026–27. 4. Isle of Anglesey County Council (various locations Anglesey) (disabled persons parking places) Order 2026

DRAFT

6. Cofnodion Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned Ynys Môn (30 Medi 2026) - er gwybodaeth.
7. ULlC - Arolwg Cyrff Cyhoeddus HMRC - Cyfle i gyrff cyhoeddus gyfrannu at ymchwil HMRC.
8. Cyngor Sir Ynys Mon – Cau croesfannau rheilffordd lefel yn ystod Storm Austen 23-25-10-2026.
9. Cyngor Sir Ynys Môn - Gorchymyn (cau llwybr troed dros dro) (llwybr troed rhif 13 y fali a llwybr troed rhif 23 Llanfair yn Neubwll) 2026

5. Community Resilience Assessment Questionnaire (Wales).
6. Anglesey Town & Community Council Liaison Forum Minutes (30 September 2026) - to note.
7. OVW - HMRC Public Bodies Survey - Opportunity for public bodies to contribute to HMRC research.
8. Isle of Anglesey County Council - Closure of railway level crossings during Storm Austen, 23–25 October 2026.
9. Isle Of Anglesey County Council (Temporary Footpath Closure) (Valley Footpath No. 13 And Llanfair Yn Neubwll Footpath No. 23) Order 2026

150/2627 **Ymgynghoriad (wedi cylchredeg):**

1. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon yng Nghymru - Ystyried a yw'r Cyngor yn dymuno cyflwyno sylwadau i Un Llais Cymru mewn ymateb i'r alwad am dystiolaeth.

Nodwyd bod gwybodaeth am alwad am dystiolaeth Llywodraeth Cymru wedi'i rhannu gyda'r aelodau a rhoddwyd cyfle iddynt gyflwyno sylwadau. Nid oedd yr aelodau'n dymuno cyflwyno ymateb.

2. Cyngor Sir Ynys Mon - Adolygiad Cymunedol 2026 - Ystyried yr ymgynghoriad ar y trefniadau etholiadol drafft a chytuno ymateb y Cyngor.

Nodwyd bod copi o'r ymgynghoriad ar y trefniadau etholiadol drafft wedi'i rannu gyda'r aelodau. Nodwyd nad yw'r cynigion yn effeithio ar ardal Cyngor Cymuned y Fali ac nad oedd yr aelodau'n dymuno cyflwyno unrhyw sylwadau.

Consultation (Circulated):

1. Welsh Government Vision for Culture and Sport in Wales - To consider whether the Council wishes to submit comments to One Voice Wales in response to the call for evidence.

It was noted that information regarding the Welsh Government's call for evidence had been circulated to members and they were given the opportunity to submit comments. Members did not wish to submit a response.

2. Isle of Anglesey Council - Community Review 2026 - To consider the consultation on draft electoral arrangements and agree a Council response.

It was noted that a copy of the consultation on the draft electoral arrangements had been circulated to members. It was noted that the proposals do not affect the area of Valley Community Council and that members did not wish to submit any comments.

151/2627 **Derbyn adborth gan:**

1. Fforwm Gyswllt Cynghorau Tref a Chymuned

Nodwyd fod cyfarfod diwethaf y Fforwm wedi'i gynnal ar 30 Medi 2026 a bod copi o'r cofnodion wedi'i ddosbarthu i'r aelodau. Rhoddodd y Cynghorydd J.P. Taylor ddiweddariad byr ar y cyfarfod.

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm ar 9 Rhagfyr 2026.

To receive feedback from:

1. Town and Community Council Liaison Forum

It was noted that the last Forum meeting was held on 30 September 2026 and that copies of the minutes had been circulated to members. Councillor J.P. Taylor provided a brief update on the meeting.

It was noted that the next Forum meeting will be held on 9 December 2026.

DRAFT

2. ULlC: Pwyllgor Ardal Ynys Mon
Nodwyd bod Cyfarfod Ardal Môn Un Llais Cymru wedi'i gynnal ar 14 Hydref 2026. Rhoddodd y Cyng C. Thornhill ddiweddariad byr ar y cyfarfod a nodwyd nad oedd llawer o gynrychiolaeth yn bresennol. Y Clerc i gylchredeg y cofnodion i'r aelodau.

3. Bwrdd Llywodraethwyr yr Ysgol
Rhoddodd y Cyng G Browne MBE ddiweddariad byr o gyfarfod diweddar Corff Llywodraethu'r Ysgol. Nodwyd bod pryderon wedi'u codi ynghylch cerbydau mawr (HGVs) yn parcio ym maes parcio'r ysgol y tu allan i'r Caban (meithrinfa). Mae hyn yn cyfyngu ar leoedd parcio i rieni ac yn codi pryderon o ran diogelwch. Mae'r ysgol wrthi'n mynd i'r afael â'r mater.

4. Cynghrair Bro'r Llynnoedd
Dim diweddariad

152/2627 **Hyfforddiant**
Nododd y Clerc fod manylion hyfforddiant wedi'u cylchredeg i'r aelodau, gan dynnu sylw at nifer o sesiynau hyfforddiant am ddim sydd ar gael drwy Un Llais Cymru. Nodwyd bod rhai aelodau eisoes wedi mynegi diddordeb mewn mynychu. Anogodd y Clerc yr aelodau i fanteisio ar y cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael.

153/2627 **Eitemau i raglen y cyfarfod nesaf**
Gwyndod Project / Great British Energy – Nuclear Update
Adroddodd y Clerc fod cynrychiolwyr Great British Energy – Nuclear wedi cynnig mynychu cyfarfod y Cyngor i roi diweddariad ar Brosiect Gwyndod ac ateb cwestiynau'r aelodau. Nodwyd bod y sefydliad wedi argymell neilltuo hyd at awr ar gyfer y cyflwyniad a'r sesiwn holi ac ateb.

Nodwyd y bwriedir cynnwys y cyflwyniad ar raglen cyfarfod y Cyngor Llawn ar 18 Tachwedd 2026 ac y bydd y cyfarfod yn cychwyn am 6.30yh er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer y cyflwyniad a sesiwn gwestiynau'r aelodau.

154/2627 **Dyddiad y Cyfarfodydd Nesaf**

2. OVW: Ynys Mon Area Meeting
It was noted that the One Voice Wales Anglesey Area Meeting was held on 14 October 2026. Cllr C. Thornhill provided a brief update on the meeting and it was noted that attendance had been limited. Clerk to circulate the minutes to members.

3. School Governing Board
Cllr G Browne MBE provided a brief update from a recent School Governing Body meeting. It was noted that concerns had been raised regarding large HGVs parking in the school car park directly outside the Caban (nursery). This is restricting parking for parents and presents a safety concern. The school is currently addressing the issue.

4. Bro'r Llynnoedd Alliance
No update

Training
The Clerk advised that training details had been circulated to members, drawing attention to the range of free training sessions available through One Voice Wales. It was noted that some members had already expressed an interest in attending. The Clerk encouraged members to make use of the training opportunities available.

Items for the next meeting agenda
Gwyndod Project / Great British Energy – Nuclear Update
The Clerk reported that representatives of Great British Energy – Nuclear had offered to attend a Council meeting to provide an update on the Gwyndod Project and answer members' questions. It was noted that the organisation had recommended allowing up to one hour for the presentation and question-and-answer session.

It was noted that the presentation is intended to be included on the agenda for the Full Council meeting on 18 November 2026 and that the meeting will commence at 6.30pm to allow sufficient time for the presentation and members' questions.

Date of Next Meetings

DRAFT

28/10/2026 - Sesiwn Wybodaeth i Aelodau: Cais ar gyfer Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer Pentref Hamdden Penrhos

Dyddiad i'w gadarnhau - Grwp Gweithio: Nod ac Amcanion y Cyngor 2026-2029

04/11/2026 - Pwyllgor Cyllid a Phersonel - 7.00yh yn Rhithiol

18/11/2026 - Cyfarfod llawn **– 6.30yh** ar gyfer cyflwyniad 7.00yh yn Ysgol Gymuned Y Fali a Teams

28/10/2026 –Members' Briefing: Reserved Matters Application for Penrhos Leisure Village

Date to be confirmed – Working Group: 2026-2029 Aims and Objectives

04/11/2026 – Finance and Personnel Committee – 7.00pm via Teams

18/11/2026 - Full Council meeting – **6.30pm** at Valley Community School and on Teams.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.24yh

The meeting ended at 8.24pm

DRAFT